# CYFARFOD PENDERFYNIADAU'R AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL - YR ARWEINYDD

**19/2/2018**

| Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol: | Y Portffolio: |
|---|---|
| Y Cynghorydd Emlyn Dole | Arweinydd |

## CRONFA CYCHWYN BUSNES SIR GAERFYRDDIN & CRONFA TWF BUSNES SIR GAERFYRDDIN

Y Pwrpas: Darparu cymorth ariannol i fusnesau newydd a busnesau presennol yn Sir Gaerfyrddin i sefydlu mentrau newydd a chreu swyddi.

## Yr argymhellion / penderfyniadau allweddol sydd eu hangen:

Cais yw hwn i gymeradwyo'r egwyddor o gael Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin a Chronfa Twf Busnes Sir Gaerfyrddin.

Cynigir bod cyllideb o £500,000 yn cael ei dyrannu i'r gronfa, a fyddai yn ddau gynllun grant trydydd parti ar wahân, h.y. 1 x cronfa cychwyn busnes ac 1 x cronfa dwf. Argymhellir bod £150,000 yn cael ei ddyrannu i'r gronfa cychwyn busnes a £350,000 yn cael ei ddyrannu i'r gronfa dwf. Byddai'r gronfa'n cynnwys cymorth grant tuag at brosiectau gwariant cyfalaf a phrosiectau gwariant refeniw arbenigol fel ei gilydd, gan ddyrannu'r gwariant mewn modd hyblyg yn ddibynnol ar y galw rhwng y ddwy raglen.

Blaenoriaeth y gronfa fyddai i gefnogi'r gwaith o greu swyddi a busnesau newydd yn y Sir. Bydd Cronfa Cychwyn Busnes Sir Gaerfyrddin yn cael ei dyfarnu yn seiliedig ar fwyafswm o 50% o'r costau cymwys, yn unol â Chymorth Gwladwriaethol NEU £5,000 fesul swydd a gaiff ei chreu, p'un bynnag sydd leiaf. Y dyfarniad grant mwyaf fesul busnes fyddai £10,000.

Bydd Cronfa Twf Busnes Sir Gaerfyrddin yn cael ei dyfarnu yn seiliedig ar fwyafswm o 50% o'r costau cymwys, yn unol â Chymorth Gwladwriaethol NEU £5,000 fesul swydd a gaiff ei chreu, p'un bynnag sydd leiaf. Y dyfarniad grant mwyaf fesul busnes fyddai £10,000.

**Argymhelliad: Cymeradwyo'r dyraniad o £500,000 tuag at y ddwy gronfa cefnogi busnes newydd.**

## Y rhesymau:

Byddai'r Gronfa, pe bai'n cael ei chymeradwyo, o gymorth i greu Busnesau Micro (0-9 o weithwyr), Busnesau Bach (10- 49 o weithwyr), Busnesau Canolig (50-249 o weithwyr) a Busnesau Mawr (250+ o weithwyr) a/neu eu helpu i dyfu a ffynnu, a fyddai'n arwain at greu swyddi. Byddai'r gronfa hefyd yn cynorthwyo'r tîm Datblygu Economaidd i gyflawni'r canlyniadau o ran swyddi fel y'u nodir yn strategaeth y "Cynllun Adfywio Strategol ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2015 – 2030 - Trawsnewid".

Yn seiliedig ar y gofyniad ariannol arfaethedig, byddai'r gronfa yn helpu i greu o leiaf 15 o fentrau ac o leiaf 100 o swyddi yn yr economi leol yn ystod 2018/19 a thu hwnt. Byddai'r gronfa hefyd yn denu o leiaf £500,000 o fuddsoddiad gan y sector preifat fel arian cyfatebol.



| | | |
|---|---|---|
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| Y Gyfarwyddiaeth: Y Prif Weithredwr<br>Enw'r Cyfarwyddwr:<br>Wendy Walters<br><br>Awdur yr Adroddiad:<br>Stuart Walters | Swydd<br><br>Cyfarwyddwr Adfywio a Pholisi<br><br>Rheolwr Datblygu Economaidd | Rhif Ffôn 01267 224112<br>Cyfeiriad e-bost:<br>wswalters@sirgar.gov.uk<br>Rhif Ffôn 01269 590241<br>Cyfeiriad e-bost:<br>swalters@sirgar.gov.uk |

**Declaration of Personal Interest (if any): None**

**Dispensation Granted to Make Decision (if any):N/A**

**DECISION MADE:**

**Signed:**

_______________________________________________DATE:________

EXECUTIVE BOARD MEMBER

**The following section will be completed by the Democratic Services Officer in attendance at the meeting**

| | |
|---|---|
| Recommendation of Officer adopted | YES / NO |
| Recommendation of the Officer was adopted **subject to the amendment(s) and reason(s) specified:** | |
| Reason(s) why the Officer's recommendation was **not adopted**: | |